**<u>Datganiad Cyfrifon Rhondda Cynon Taf 2024/25 – Hysbysiad Archwilio</u>**

Mae Rheoliad 10(1) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn gofyn bod Swyddog Cyllid Cyfrifol Cyngor Rhondda Cynon Taf yn llofnodi a dyddio'r datganiad cyfrifon, ac yn ardystio ei fod yn cyflwyno trosolwg gwir a theg o sefyllfa ariannol y corff ar ddiwedd y flwyddyn y mae'n ymwneud â hi ac incwm a gwariant y corff ar gyfer y flwyddyn honno. Mae'r Rheoliadau'n gofyn bod hwn yn cael ei gwblhau erbyn 31 Mai 2026.

[Llofnododd ac ardystiodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol y datganiad blynyddol ar 30 Mehefin 2026. Cyn hynny, cyhoeddodd ddatganiad yn nodi'r rhesymau dros beidio â chydymffurfio â'r amserlen ardystio fel sy'n ofynnol gan y Rheoliadau].

Mae Rheoliad 10(2) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd), yn ei gwneud yn ofynnol, yn dilyn ardystiad y Swyddog Ariannol Cyfrifol y cyfeiriwyd ato uchod, bod CBS Rhondda Cynon Taf yn cymeradwyo ac yn cyhoeddi'r datganiad o gyfrifon sydd wedi'u harchwilio. Roedd y Rheoliadau'n gofyn bod y broses yma wedi'i chwblhau erbyn 31 Gorffennaf 2026.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei disgwyliad o ran amserlen estynedig ar gyfer ardystio ac archwilio cyfrifon ariannol statudol ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26 (sef 30 Mehefin a 30 Medi yn y drefn honno) ac ar gyfer blynyddoedd dilynol a bydd yn ceisio ymgynghori ar y rheoliadau a gwneud diwygiadau iddyn nhw. Yn y cyfamser, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i gyrff gyhoeddi'r datganiad yma (yn unol â rheoliad 10(4)).

Mae'r Awdurdod wedi diwygio ei amserlen yn unol â hynny. Dydy'r archwiliad o ddatganiad o gyfrifon 2025/26 ddim wedi'i gwblhau eto a doedd barn yr archwilwyr ddim wedi'i ddarparu erbyn 31 Gorffennaf 2026.